




Teithiau Cerdded
Thematig Rhif 3

Cyfeiriadu ym Mharc Gwledig Gelli Aur

TYWI AFON YR OESOEDD



TYWI A RIVER THROUGH TIME

Gyfeiriadu ym Mharc Gwledig Gelli Aur. Cip cyflym

Pellter

2 cilomedr

Amser

rhwng 30 munud a 2 awr

Cyfeiriadu ym Mharc Gwledig Gelli Aur

Mae cyfeiriadu yn gamp y gellir ei mwynhau gan unrhyw un o blant cyn-ysgol i bobl oedrannus. Y cyfan sydd ei angen yw brwdfrydedd a pharodrwydd i geisio darllen mapiau. Mae cyfeiriadu hefyd yn ffordd ddifyr a chyffrous o brofi amgylchedd hyfryd Parc Gwledig Gelli Aur.

Edrychwch am

Geirw a mathau eraill o fywyd gwyllt yn y parc gwledig.

Cofiwch

Ofalu nad ydych yn tarfu ar y bywyd gwyllt nac yn crwydro oddi ar y llwybrau a farciwyd ar y map.

Dewch yn barod

Rydym yn argymhell fod gennych y map yma a chwmpawd a phensil, yn ogystal ag esgidiau a dillad addas ar gyfer cyflwr y tir a'r tywydd.

Diolch yn fawr

Diolch yn fawr iawn i Barc Gwledig Gelli Aur am weithio'n agos gyda Thywi Afon yr Oesoedd ar y prosiect hwn ac am adael i'r prosiect greu llwybr Cyfeiriadu yn y parc.

Ar gyfer pwy mae cyfeiriadu yn addas?

Ni ddylai oed atal neb rhag cyfeiriadu: y cyfan sydd ei angen arnoch yw digon o frwdfrydedd. Nid yw heriau cyfeiriadu yn ymwneud â ffitrwydd o reidrwydd; mae cryfderau eraill, fel trefniadaeth a chyfathrebu, yn bwysig.

Beth yw Cwrs Melyn?

Mae'r cwrs yng Ngelli Aur yn gwrs Melyn ac mae'n ddelfrydol i ddechreuwyd. Mae'r rhan fwyaf o gwrs ar lwybr ac mae'n gwrs cyntaf da i unrhyw un i roi cynnig arno, ac yn wych i deuluoedd fynd o'i gwmpas gyda'i gilydd. Mae cwrs oren, sydd ychydig yn anoddach, hefyd ar gael ym Mharc Gwledig Gelli Aur.

Y Cwrs Cyfeiriadu

Mae'r map Cyfeiriadu yn cynnwys 15 cylch porffor, a rhoddir llythyren i bob un ohonynt. Mae'r llythrennau hyn yn nodi lleoliad Marciwr Cyfeiriadu. Mae'r marcwyr yn wyn a choch ac yn edrych fel hyn:



Bydd Llythyren ar bob Marciwr sy'n cyfateb i'r llythyren ar gylch porffor ar y Map

a rhif côd y mae angen ichi ei gofnodi i ddangos eich bod wedi dod o hyd i'r marciwr. Bydd angen ichi gopïo'r rhif côd ar eich cerdyn rheoli yn y blwch rhif priodol.

Gallwch wneud y cwrs ym mha drefn bynnag y mynnwch. Beth am roi amser ichi'ch hun a gweld sawl côd y gallwch ddod o hyd iddyn nhw yn yr amser a roesoch?




Cerdyn Rheoli — defnyddiwch y cerdyn rheoli hwn i lenwi'r holl godau y dewch o hyd iddyn nhw

Pwynt Rheoli	Rhif Côd
B	
C	
F	
FF	
J	
L	
M	
N	
P	
Q	
T	
V	
W	
X	
Y	

Gelli Aur

Cwrs Melyn 2 Cilomedder

Graddfa 1:3,000
Cyfwng Cyfuchlinol 10m



Camu ymhellach i Ddyffryn Tywi

Mae 'Cyfeiriadu ym Mharc Gwledig Gelli Aur' yn un o gyfres o 6 thaith gerdded thematig a grëwyd i annog pobl i fwynhau Dyffryn Tywi. Gwnaed y teithiau cerdded yn bosib diolch i ffermwyr a thir berchnogion lleol a Phrosiect Tywi Afon yr Oesoedd sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am unrhyw un o deithiau cerdded thematig Tywi Afon yr Oesoedd, ewch i www.tywiarivethroughtime.org.uk



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI